Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili**
**Heol Parcyfelin**
**Caerffilli**
**CF83 3AH**

**Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2013**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2013**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili wedi'i lleoli ar gyrion gogleddol y dref. Mae'n darparu addysg ar gyfer plant sy'n byw yng ngogledd y dre yn bennaf, yn ogystal â phentrefi cyfagos. Erbyn hyn, mae cynnydd sylweddol yn y nifer o ddisgyblion ar waelod yr ysgol. Mae'r ysgol yn symud o'i safle presennol i safle gwag cyfagos ym Medi 2014.

Mae'r ysgol wedi ei dynodi yn ysgol ddwyieithog sy'n golygu mai prif gyfrwng yr addysgu yw'r Gymraeg ac fe gyflwynir Saesneg pan fydd y disgyblion yn saith oed. Mae tua 80% o ddisgyblion yn dod o gartrefi Saesneg eu hiaith.

Mae'r ysgol yn darparu addysg ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Mae 339 o ddisgyblion, sy'n cynnwys rhai meithrin rhan amser, ar y cofrestr. Derbynnir y disgyblion i'r ysgol yn amser llawn ar ddechrau'r Medi yn dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Mae gan tua 14% o ddisgyblion hawl i brydau bwyd ysgol am ddim, ffigwr sy'n is na chyfartaledd yr awdurdod addysg leol (AALl) a'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae tua 17%% o ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sydd hefyd yn is na'r ffigwr cenedlaethol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2007. Mae'r Pennaeth cyfredol wedi bod yn y swydd ers Mai 2002.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili yn 2013-2014 yw £2,703. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yng Nghaerffili yw £5,118 a'r lleiafswm yw £2,645. Mae Ysgol Gynradd Gymraeg Caerffili yn safle 71ain o'r 75 ysgol gynradd yng Nghaerffili o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

**Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd bod**:

- y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu;
- cyfleoedd da i ddisgyblion wneud defnydd ymarferol o'u holl medrau;
- bron pob disgybl yn frwdfrydig, yn gwrando'n astud ac yn cyfrannu yn weithredol yn y sesiynau dysgu;
- profiadau dysgu cyfoethog yn cael eu cynllunio; bod ansawdd yr addysgu yn dda a bod staff ategol yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol iawn; a bod
- yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar gydag ethos croesawgar.

**Rhagolygon gwella**

**Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:**

- gweledigaeth glir gan y pennaeth sy'n canolbwyntio ar wella lles a safonau'r disgyblion;
- holl aelodau'r staff yn glir ynghylch eu rolau, yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio fel tîm;
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniad disgyblion;
- yr ysgol yn mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu; a bod
- y corff llywodraethol yn cefnogi a herio'r ysgol yn dda.

## Argymhellion

A1 Sicrhau gwelliant yn y niferoedd sy’n cyflawni ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2

A2 Lleihau y bwlch rhwng cyrhaeddiad merched a bechgyn ar y lefelau uwch yn y ddau gyfnod

A3 Cryfhau cysylltiadau’r athrawon er mwyn manteisio ar rannu arfer dda y tu hwnt i’r ardal leol

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd Ysgol Gymraeg Caerffili yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau asesiadau sylfaen disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn dangos fod gan y rhan fwyaf ohonynt lefel isel o allu yn y medrau sylfaenol. Mae'r rhan fwyaf ohonynt, gan gynnwys y rhai sy'n derbyn cymorth ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn mewn gwersi ac yn cyflawni'n dda dros gyfnod.

Mewn gwersi, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofio dysgu blaenorol yn dda a defnyddiant y wybodaeth hon yn effeithiol i gaffael gwybodaeth a medrau newydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol mewn ystod o bynciau. Dangosa'r rhan fwyaf ohonynt wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r hyn y maent wedi'i ddysgu. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud ar eu hathrawon yn ystod gwersi ac yn awyddus i gynnig atebion neu sylwadau wrth siarad am eu gwaith. Maent yn gallu canolbwyntio a chyfrannu yn effeithiol at drafodaethau yn y dosbarth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson mewn sefyllfaoedd ffurfiol. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn hyderus yn y ddwy iaith.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen agwedd gadarnhaol at ddarllen. Dangosant ddiddordeb yn y llyfrau y maent yn eu darllen, ac mae llawer ohonynt yn darllen yn rhugl gyda chywirdeb a dealltwriaeth gynyddol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion agwedd gadarnhaol at ddarllen. Mae'r disgyblion hŷn yn darllen ystod eang o destunau yn gywir a gyda mynegiant. Maent yn trafod yn rhwydd am lyfrau ac awduron y maent yn eu hoffi. Gall llawer ohonynt frasddarllen darn i gael ei ystyr a chasglu gwybodaeth. Maent yn defnyddio llyfrau gwybodaeth yn briodol ar gyfer ymchwilio i ffeithiau i'w defnyddio mewn gwaith trawsgwricwlaidd.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn Y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da o ran eu medrau ysgrifennu cynnar. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu'n llwyddiannus iawn at ystod o ddibenion, mewn brawddegau llawn gydag atalnodi priodol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu'n dda gan ddefnyddio amrywiaeth o strwythurau brawddegau a geirfa ddiddorol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymestyn eu medrau ysgrifennu yn dda i gynhyrchu darnau ysgrifennu estynedig o ansawdd uchel ar draws y cwricwlwm, yn enwedig yn hanes. Maent yn ysgrifennu'n hyderus ac yn gywir mewn amrywiaeth o ffurfiau ac mae eu hysgrifennu yn aml yn ystyriol a dychmygus.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda iawn ac yn gwneud cynnydd cadarn yn gyson mewn perthynas â'u gallu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda ac yn eu cymhwyso mewn meysydd eraill o ddysgu yn hyderus, gan ddatrys problemau rhif ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae safonau mewn rhifedd erbyn diwedd y cyfnod yn gryfder. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn defnyddio amrywiaeth o gyfrifo yn y pen ac yn ysgrifenedig yn gywir. Mae dealltwriaeth gadarn gan lawer ohonynt o gysyniadau 4 rheol rhif ac maent yn gallu trosglwyddo eu medrau rhifedd yn hyderus i feysydd pwnc eraill.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae canlyniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (Deilliant 5) yn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol, datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ac yn Nangosydd Deilliannau'r Cyfnod Sylfaen yn uwch na chanlyniadau disgyblion mewn ysgolion eraill yn y teulu a chyfartaledd Cymru gyfan. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â'r hawl i ginio am ddim, mae'r ysgol yn perfformio yn y 50% uchaf yn datblygiad iaith, mathemateg a Dangosydd y Cyfnod Sylfaen ac yn y 25% uchaf mewn datblygiad personol.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch (Deilliant 6+), yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf yng Nghymru ar gyfer datblygiad iaith ac yn y 50% isaf mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol. Yn gyffredinol, ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae cyrhaeddiad da dros y pedair blynedd diwethaf. Mae canran y disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig (lefel 4) yn uwch na chyfartaledd y teulu yn 2013. O'i chymharu gydag ysgolion tebyg o ran canran y disgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio am ddim, mae'r ysgol yn yr 50% uchaf yn y Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth ac ymhlith y 25% uchaf yn Saesneg ar Dangosydd Pwnc Craidd.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion oedd wedi cyflawni'r lefel uwch (sef Lefel 5) yn 2013 yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru ymhob pwnc craidd ac wedi bod am y pum mlynedd diwethaf. Ar y cyfan, nid oes gwahaniaethau amlwg dros gyfnod yng nghyflawniad y bechgyn a'r merched.

Nid oes llawer o wahaniaeth rhwng cyrhaeddiad disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim a gweddill disgyblion yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo yn hapus a diogel tra yn yr ysgol. Maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor neu i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o beth sydd angen gwneud i fod yn iach a pham fod hyn yn bwysig. Mae ymddygiad yn dda ac mae'r disgyblion yn ofalgar o'u cyd ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi a'u gweithgareddau. Maent yn gweithio'n dda yn annibynnol ac o dan gyfarwyddyd oedolion. Mae'r disgyblion yn cyfranu tuag at eu meini prawf llwyddiant a gosod targedau personol sydd yn eu helpu i ennill dealltwriaeth o'u cryfderau a sut i wella'u gwaith. Mae'r rhan fwyaf yn cyfranogi'n gydwybodol mewn gwersi ac yn frwdfrydig ynglŷn â dysgu.

Mae presenoldeb yr ysgol yn ei gosod ymhlith y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cyrraedd yn brydlon.

Mae'r disgyblion yn cymryd cyfrifoldeb dros weithgareddau elusennol ac maent yn deall effaith eu gweithgaredd ar unigolion a chymunedau gwahanol.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Trwy gydweithio agos, mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd dysgu diddorol ac ysgogol sy'n cyfarfod â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Mae'r cynllunio hefyd yn diwallu anghenion personol ac addysgiadol y disgyblion ac yn galluogi bron pob disgybl i wneud cynnydd da.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae ystod eang o brofiadau dysgu cyffrous yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol. Mae themâu traws-gwricwlaidd a rhaglenni gwaith diddorol yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Maent hefyd yn rhoi cyfleoedd da iddynt i wneud defnydd ymarferol o'u medrau cyfathrebu, rhifedd a TGCh ar draws nifer o feysydd cwricwlaidd. Enghraifft dda o hyn yw cywaith entrepreneuriaeth y disgyblion hŷn. Maent yn ymchwilio costau crysau 't' masnachol archfarchnadoedd blaenllaw yna, eu personoli a'u gwerthu yn ffair yr ysgol i wneud elw.

Mae profiadau dysgu'r holl ddisgyblion yn cael eu cyfoethogi gan ymweliadau i'r gymuned leol a thu hwnt. Mae ystod eang o weithgareddau all-gyrsiol yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol. Mae'r cyfleoedd i'r disgyblion gymryd rhan mewn clybiau amrywiol ar ôl ysgol yn cyfrannu'n dda tuag at eu lles a chodi eu hyder.

Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn cael lle canolog yn yr ysgol. Mae arddangosfeydd safonol holl ddosbarthiadau'r ysgol yn hyrwyddo yr agwedd yma o waith yr ysgol yn effeithiol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu disgyblion am ddatblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn briodol ac yn treiddio nifer o feysydd y cwricwlwm.

**Addysgu: Da**

Mae'r athrawon ym mron pob dosbarth yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu mewn ffordd fedrus ac yn cyflwyno gwersi bywiog a brwdfrydig. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol da. Mae'r cynllunio yn drylwyr, yn darparu cyfarwyddiadau clir ac yn cyflwyno amcanion dysgu a meini prawf llwyddiant penodol ar gyfer disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio adnoddau ystafell ddosbarth yn effeithiol iawn ac yn sicrhau bod deunyddiau yn barod ac ar gael, fel y gall dysgu symud ymlaen yn ddi-oed.

Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, mae'r athrawon a'r cynorthwywyr yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion ac yn datblygu eu medrau dysgu yn effeithiol iawn. Maent yn defnyddio ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu i

sicrhau bod disgyblion yn cael eu hysgogi'n dda ac yn cymryd rhan wrth ddatblygu eu dysgu eu hunain.

Mae yna drefniadau cynhwysfawr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir yn bwrpasol i adnabod y camau nesaf yn y dysgu.

Mae gan yr ysgol gôd marcio penodol sy'n amlwg drwy'r ysgol. Mae'r gwaith yn cael ei farcio'n rheolaidd ac mae'r adborth i ddisgyblion bob amser yn dangos yn ddigon clir sut i'w wella. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r disgyblion i gyd yn cael eu hannog i fynegi barn am eu gwaith ac yn cynnig gwelliannau.

Mae adroddiadau blynyddol sy'n cael eu darparu i rieni o ansawdd da ac yn darparu gwybodaeth fuddiol iddynt am gynnydd a lles eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ymarfer corff yn rheolaidd. Mae gweithgareddau allgyrsiol yn cynnig profiadau i'r disgyblion sydd yn eu galluogi i ddatblygu hunan hyder a gofal at eraill tra'n magu ystod eang o sgiliau. Mae'r ysgol yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion i ddysgu am wahanol ffyrdd o addoli ac maent wedi datblygu'n gymdeithasol, yn foesol ac ysbrydol o ganlyniad i brofiadau pwrpasol sydd wedi eu cynllunio ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r cyfleoedd yma wedi helpu'r disgyblion i ddatblygu parch tuag at eu diwylliant eu hunain ac at ddiwylliannau eraill.

Mae'r ysgol yn gweithio'n ddiwyd i sicrhau fod yna safon uchel mewn prydlondeb a phresenoldeb.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf a chefnogol iawn gyda nifer o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol. Mae'r cysylltiadau hyn yn sicrhau cefnogaeth ac arweiniad o safon uchel i'r disgyblion a rhieni.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn eang a chynhwysfawr. Mae anghenion y disgyblion hyn yn cael eu canfod yn gynnar gan yr athrawon. O ganlyniad mae athrawon yn darparu cynlluniau gwaith unigol o safon uchel ar eu cyfer. Mae'r rhaglenni ymyrraeth sy'n weithredol i gefnogi'r disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wnant. Mae tîm effeithiol iawn o gynorthwywyr dysgu yn cefnogi'r gwaith yma.. Fodd bynnag, dechrau datblygu mae gweithdrefnau ar gyfer y disgyblion sy'n fwy abl a thalentog ac nid yw rhain eto wedi cael effaith digonol ar eu deilliannau.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd cyfartal i bob disgybl o bob gallu a chefndir. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i gymeryd gofal a chyfrifoldeb am eu cyd ddisgyblion a

thrwy hyn magu agwedd o barch a hunan hyder. Mae cydweithrediad rhwng y disgyblion yn helpu i feithrin ethos croesawgar, deuluol a gofalgar o fewn yr ysgol.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r ardaloedd allanol o fewn gwersi ac ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol. Mae yn hyrwyddo parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy waith amrywiol yn astudio gwledydd tramor.

Mae'r adeilad yn cynnig amgylchedd dysgu buddiol lle mae'r arddangosfeydd yn dangos gwaith y disgyblion ac yn rhoi cyfle iddynt ymfalchio yn eu cyflawniadau. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o dir ac adeilad yr ysgol a chaiff yr holl safle ei chadw'n raenus.

Mae adnoddau niferus i weld yn yr ysgol a gwneir defnydd da ohonynt.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer yr ysgol yn seiliedig ar hybu dysgu annibynnol gydol oes ac ar sicrhau lles disgyblion. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth honno i staff, disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Mae ei arweinyddiaeth gadarn yn sicrhau bod pob agwedd o fywyd ysgol yn cael dylanwad positif ar safonau gwaith a lles disgyblion. O dan arweiniad yr uwch dim rheoli mae staff ar bob lefel yn cydweithio'n effeithiol iawn i ddatblygu cynnydd cyson yn sgiliau'r disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o'i gilydd. Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad sydd yn hybu safonau da yng ngwaith disgyblion a sicrhau cyfleoedd datblygiad proffesiynol addas i holl staff yr ysgol.

Mae'r llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar berfformiad yr ysgol gan y pennaeth. Maent yn datblygu dealltwriaeth gynyddol o ystod o ddata perfformiad, er mwyn adnabod cryfderau ac ardaloedd i wella. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cydnabod pwysigrwydd ffocysu ar safonau gwaith disgyblion ac yn cynnal cyswllt pwrpasol iawn gyda'r cydlynwyr cwricwlaidd. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd er mwyn cyflawni 'teithiau ar waith' a derbyn cyflwyniadau ar agwedd cwricwlaidd. Mae eu rôl fel ffrind beirniadol i'r pennaeth wedi datblygu'n dda dros gyfnod sylweddol.

Mae'r ysgol yn rhoi sylw da iawn i flaenoriaethau cenedlaethol. Mae'r Cyfnod Sylfaen a strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi'u sefydlu'n llwyddiannus. Mae athrawon yn defnyddio'r fframwaith llythrennedd a rhifedd newydd yn effeithiol i gynllunio medrau ar draws y cwricwlwm.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn cyflwyno darlun clir a chynhwysfawr o berfformiad yr ysgol, ei chryfderau a'r ardaloedd sydd angen eu gwella. Mae'n mynegi barnau cywir am safonau gwaith disgyblion.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod y broses monitro yn cynnwys arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau disgyblion a gwerthuso cynllunio'r athrawon. Mae'r uwch dîm rheoli yn dadansoddi data perfformiad yn rheolaidd ac mae'r cydlynwyr yn cyfrannu'n effeithiol at arfarnu ansawdd y ddarpariaeth yn eu pynciau. Mae trefniadau defnyddiol mewn lle ar gyfer ystyried barn llywodraethwyr, staff, rhieni a disgyblion.

Mae'r athrawon yn trafod holl ddeilliannau'r broses hunanarfarnu yn drylwyr er mwyn blaenoriaethu yr anghenion gwella. Mae cyswllt clir rhwng y blaenoriaethau yma a'r targedau sydd yn y cynllun datblygiad. Er bod nifer sylweddol o dargedau yn y cynllun, mae'r ysgol yn rhoi'r pwyslais mwyaf ar y rhai sydd yn ymwneud â chodi safonau mewn llythrennedd a rhifedd, a gwella'r ddarpariaeth ar gyfer lles disgyblion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n dda iawn gydag ystod eang o bartneriaid i gynllunio ei darpariaeth. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyrhaeddiad disgyblion. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol gyda rhieni yn anffurfiol ac mewn sesiynau wedi'u cynllunio, i'w galluogu i chwarae rhan weithredol yn addysg eu plant.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gyda'r Cylch Meithrin i sicrhau bod plant sydd yn dechrau yn y dosbarth meithrin yn ymgartrefu'n fuan yn yr ysgol. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn eu paratoi'n drylwyr ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion y clwstwr i gyd safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae'r broses hon wedi grymuso'r gweithdrefnau asesu yn yr ysgol ac yn elfen gref o'r bartneriaeth.

Mae'r ysgol yn defnyddio gwasanaethau'r awdurdod lleol yn bwrpasol i gefnogi disgyblion, yn enwedig y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ysgol yn elwa'n fawr o'i chyswllt gyda sefydliadau hyfforddi athrawon, wrth gyfrannu at gwrs mathemateg a datblygiad proffesiynol athrawon, a derbyn myfyrwyr ar ymarfer dysgu.

Mae cysylltiadau'r ysgol gyda'r gymuned yn gadarn ac yn amrywiol. Enghraifft o'r rhain yw'r cyswllt a'r clybiau karate a gwyddbwyll lleol. Mae disgyblion yn elwa o ystod eang o ymweliadau ac ymwelwyr i'r ysgol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae digon o athrawon i ymdrin a phob agwedd o waith yr ysgol. Maent yn defnyddio yr amser a roddir iddynt ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn bwrpasol. Mae'r cymunedau dysgu proffesiynol gydag ysgolion y clwstwr yn cael effaith cadarnhaol ar safonau llythrennedd, rhifedd a lles emosiynol disgyblion. Er hynny, dechrau mae'r cysylltiadau ehangach gydag ysgolion tu hwnt i'r clwstwr. Mae'r staff cynorthwyol yn cyfrannu'n helaeth at ddysgu llwyddiannus disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r pennaeth, gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol a'r corff llywodraethol, yn rheoli'r cyllid yn effeithiol ac effeithlon i ariannu blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Wrth ystyried y cynnydd da y mae disgyblion yn gwneud o sylfaen isel a'u cyrhaeddiad erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, mae canlyniadau disgyblion ar y lefel ddisgwyliedig (Deilliant 5 neu uwch) yn iaith, llythrennedd a chyfathrebu, datblygiad mathemategol, datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol ac yn Nangosydd Deilliannau’r Cyfnod Sylfaen yn uwch na chyfartaledd canlyniadau ysgolion eraill y teulu, ac yn uwch na chyfartaledd holl ysgolion Cymru.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch (Deilliant 6 neu uwch) yn sylweddol uwch na chyfartaleddau’r teulu a Chymru mewn datblygiad iaith a llythrennedd ond ychydig yn is na’r cyfartaledd mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol.

O’u cymharu gydag ysgolion tebyg ar sail nifer y disgyblion sydd â’r hawl i ginio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol ar ddeiliant 5 yn y 50% uchaf ar gyfer datblygiad iaith, a’r dangosydd y Cyfnod Sylfaen dros y ddwy flynedd diwethaf.  Mae perfformiad yr ysgol ar gyfer datblygiad mathemateg wedi amrywio rhwng y 50% uchaf a’r 50% isaf. Ar gyfer datblygiad personol, mae perfformiad yr ysgol wedi codi o 50% isaf yn 2012 i’r 25% uchaf yng Nghymru yn 2013.

Mae cyflawniad y disgyblion ar y lefelau uwch (Deilliant 6+), yn gosod yr ysgol yn y 50% uchaf yng Nghymru ar gyfer datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu ac yn y 50% isaf mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth diwylliannol.  Mae datblygiad mathemateg a datblygiad personol wedi disgyn o’r 50% uchaf yn 2012 i’r 50% isaf yn 2013

Yn 2013, cyflawnodd y merched yn llawer gwell na’r bechgyn ym mhob maes dysgu ar wahân i gyrhaeddiad Deilliant 5 mewn datblygiad mathemategol ble roedd perfformiad y bechgyn ychydig yn uwch.  Yn natblygiad personol roedd perfformiad bechgyn a merched yn gyfartal.

Mae canlyniadau asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 ar y lefel disgwyliedig (lefel 4+) yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi amrywio mewn cymhariaeth gyda’r teulu ond yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru.  Roedd canran y disgyblion yn cyrraedd y deilliant disgwyliedig yn y dangosydd pynciau craidd ac mewn Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth yn 2013 yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru.  Fodd bynnag, yn 2012, roedd cyflawniad y disgyblion ar lefel 4 yn Gymraeg, Saesneg a mathemateg yn uwch na chyfartaleddau’r teulu ond ychydig yn is na’r teulu yng ngwyddoniaeth.  Roedd pob pwnc craidd yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd canran y disgyblion oedd wedi cyflawni’r lefel uwch (sef Lefel 5) yn 2013 yn sylweddol is na chyfartaledd y teulu a Chymru ymhob pwnc craidd.  Mewn Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, mae’r canran wedi bod yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru am y pum mlynedd diwethaf.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol ar lefel 4 wedi amrywio rhwng y 50% uchaf a'r 50% isaf dros y pedair blynedd flaenorol mewn mathemateg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg a Saesneg yn gosod yr ysgol ymhlith y 50% uchaf am y 4 mlynedd diwethaf ag eithro Saesneg yn 2013 lle roedd perfformiad yr ysgol ymhlith y 25% uchaf.

Wrth gymharu cyflawniad yr ysgol gydag ysgolion tebyg o ran cinio am ddim, mae cyflawniad yr ysgol ar lefel 5 yn gosod yr ysgol yn y 25% - 50% isaf yng Nghymru am y 4 blynedd ddiwethaf, mewn Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth. Mae Cymraeg wedi bod rhwng y 50% uchaf a'r 50% isaf am y 4 blynedd diwethaf.

Nid oes gwahaniaethau amlwg dros gyfnod yng nghyflawniad y bechgyn a'r merched ar ddeilliant 5 yn y Cyfnod Sylfaen nac ar lefel 4 ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Serch hyn, roedd canlyniadau'r bechgyn yn uwch na rhai'r merched ym mhob pwnc ar lefel 4 yn 2012.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 156 | 155<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 156 | 154<br>99%<br>92% | 2<br>1%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 156 | 156<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 156 | 155<br>99%<br>98% | 1<br>1%<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 156 | 155<br>99%<br>96% | 1<br>1%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 156 | 152<br>97%<br>96% | 4<br>3%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 155 | 155<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 156 | 154<br>99%<br>98% | 2<br>1%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 156 | 147<br>94%<br>91% | 9<br>6%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 156 | 151<br>97%<br>95% | 5<br>3%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 156 | 149<br>96%<br>78% | 7<br>4%<br>22% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 155 | 147<br>95%<br>84% | 8<br>5%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 12 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 0% | | |
| Pupils behave well in school. | 15 | 5 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 33% | 67% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 15 | 4 | 10 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 27% | 67% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 15 | 8 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 53% | 47% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 13 | 6 | 6 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 46% | 46% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 15 | 8 | 6 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 53% | 40% | 7% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 67% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 11 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 15 | 9 | 5 | 0 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 60% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 15 | 8 | 6 | 1 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 40% | 7% | 0% | | |
| | | 53% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 14 | 8 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 57% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 1% | | |

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Meinir Howells | Arolygydd Cofnodol |
| Rhiannon Harris | Arolygydd Tîm |
| Eleri Hurley | Arolygydd Tîm |
| Ruth Rhydderch | Arolygydd Lleyg |
| Gwenda Roberts | Arolygydd Cymheiriaid |
| Lynn Griffiths | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

### Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

### Y dangosydd pwnc craidd (DPC)

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

### Setiau Data Craidd Cymru Gyfan

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.